

© Oliver Hellowell



Hanfodion Polisi Amgylcheddol: Sut i wreiddio rheoli tir yn gynaliadwy ledled Cymru

Mae rheoli tir yn effeithiol yn hanfodol i iechyd ein hafonydd, i'n hamgylchedd, i'n heconomi, ac i gymunedau ffyniannus. Gyda 90% o Gymru'n dir ffermio, rhaid inni reoli hyn mewn partneriaeth â ffermwyr. Ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (yr UE), roedd cyfle i Gymru sefydlu Cynllun Ffermio Cynaliadwy pwrpasol, a sefydlwyd ym mis Ionawr 2026.

Fel yr oedd y sefyllfa ym mis Mehefin 2026, daeth 905,545 hectar o dir ffermio yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy; parhaodd 384,399 hectar i fod yn rhan o Gynllun y Taliad Sylfaenol a fydd yn dod i ben ar ddiwedd 2028. Mae'r Haen Gyffredinol wedi'i phennu, ac mae'r 'haenau uwch' wedi cychwyn ond nid ydynt wedi'u cwblhau.

Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n gyflym i gyflwyno ystod effeithiol o gamau gweithredu wedi'u hariannu'n ddigonol ar gyfer yr Haen Opsiynol a'r Haen Gydweithredol er mwyn:

- darparu cynifer o gyfleoedd â phosibl i ffermydd gael eu talu i adfer natur ar raddfa fawr;
- cefnogi dulliau cynhyrchu bwyd cynaliadwy;
- cynnal economi wledig wydn, gan fynd ati ar yr un pryd i greu systemau sy'n wydn yn wyneb y newid yn yr hinsawdd a fydd yn darparu ar ein cyfer i'r dyfodol.





Ochr yn ochr â rheoli cynefinoedd eraill ar dir ffermio, fel glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n cydweithio â ffermydd i gynyddu'r tir sydd wedi'i orchuddio â choed a pherthi priodol, gan gydnabod y manteision sylweddol i ffermydd ac i'r dirwedd wledig ehangach o wneud hynny.

Mae coed yn y lleoedd iawn – yn enwedig mewn systemau amaeth-goedwigaeth – yn gwella iechyd y pridd, yn gwella'r gwaith o reoli dŵr, yn darparu cysgod i dda byw, yn cefnogi bioamrywiaeth ac yn creu cyfleoedd i arallgyfeirio incwm ffermydd, gan fynd ati ar yr un pryd i gryfhau gwydnwch yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. Cafodd uchelgeisiau eu pennu o ran creu coetiroedd, ond mae cryn ffordd i fynd o hyd cyn gwireddu'r weledigaeth hon, yn enwedig os caiff sero net ei ddadflaenoriaethu.



Pa offer sydd gennym ni?

- Lluniwyd Deddf Amaethyddiaeth 2023, a sefydlodd fframwaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gyda'r bwriad o fodloni pedwar Amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy o ran cynhyrchu bwyd, y newid yn yr hinsawdd, gwydnwch ecosystemau, a diwylliant gwledig a'r Gymraeg.
- Cytundebau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer safleoedd dynodedig, drwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021 yn pennu mesurau i leihau llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol. Mae angen inni weithredu argymhellion adolygiad arbenigol annibynnol y Dr Bolton.
- Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi creu coetiroedd drwy fecanweithiau lluosog, gan gynnwys y Grant Buddsoddi mewn Coetir, i barhau i ddatblygu Coedwig Genedlaethol Cymru.





Beth y gall ASau alw amdano i sicrhau bod tir yn cael ei reoli mewn ffordd iach?

- **Sicrhau bod cyllid yn gydnaws ag uchelgais:** Blaenoriaethu buddsoddiad yn yr Haen Opsiynol a'r Haen Gydweithredol, lle y bydd y rhan fwyaf o'r manteision amgylcheddol yn cael eu gwireddu. Mae Gwerthusiad Cynllun Glastir a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn datgan yn glir ei bod yn hanfodol gweithredu yn y modd hwn os yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy am wneud cyfraniad ystyrlon at flaenoriaethau amgylcheddol.
- **Llunio llwybr cyngor a chymorth clir ar gyfer ffermwyr sy'n pontio at ffyrdd newydd o weithio:** Bydd fframwaith cyngor cydlynol yn cynorthwyo ffermwyr i gamu ymlaen o ran eu hallbynnau o dan yr Haen Gyffredinol a'r haenau uwch ychwanegol drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar y fferm gyfan. Dylai hyn gynnwys darparu offer digidol gwell, darparu cyngor un i un o ansawdd uchel, a chyflwyno Cod Ymarfer a fframwaith cymwyseddau ar gyfer cynghorwyr. Rydym yn nodi ein hargymhellion yn ein papur briffio am Fframwaith ar gyfer Cyngor Natur.
- **Sefydlu fframwaith monitro a dangosyddion cadarn:** I asesu hynt ac effeithiolrwydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar sail ymrwymiadau statudol y mae'n rhaid i ffermio gyfrannu atynt, e.e. adfer natur, mynediad i'r cyhoedd, ac ansawdd dŵr.
- **Galluogi cydweithredu effeithiol ar raddfa tirwedd:** Cyflawnir hyn orau yn Haen Opsiynol a Haen Gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gweler ein hawgrymiadau yn ein papur am Becynnau Cynefinoedd Tirwedd.
- **Llunio llinell sylfaen effeithiol ar gyfer gwaith rheoleiddio:** Rhaid gorfodi'r drefn reoleiddio amaethyddol yn effeithiol ac yn gyffredinol i roi terfyn ar golli natur ac i ddarparu'r sylfaen hanfodol a fydd yn sicrhau bod modd i gyllid cyhoeddus a mesurau gwirfoddol arwain at reoli tir yn gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys llunio fframwaith o Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Rhaid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy helpu i gefnogi gostyngiad mewn llygredd; gweler ein Papur Briffio am Ddŵr i gael mwy o wybodaeth.



Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn rhwydwaith o Sefydliadau Anllywodraethol ym meysydd yr amgylchedd, cefn gwlad a threftadaeth yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw amgylchedd ffyniannus yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r papur hwn yn cynrychioli barn gydsyniol grŵp o aelodau'r Cyswllt sy'n gweithio yn y maes arbenigol hwn. Fe all aelodau hefyd gynhyrchu gwybodaeth eu hunain er mwyn codi materion mwy manwl sy'n bwysig i'w corff arbennig nhw.

Swydda Caerdydd
Tramshed Tech
Uned D, Stryd Pendyris Caerdydd CF11 6BH
F: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Awyrlas: @waleslink.bsky.social

Cardiff Office
Tramshed Tech
Unit D, Pendyris Street, Cardiff CF11 6BH
T: 07498 228066 | E: enquiry@waleslink.org
Bluesky: @waleslink.bsky.social

www.waleslink.org

Cadeirydd | Chair: Roger Thomas. Cyf-Gyfarwyddwyr | Cyfarwyddwr | Director: Karen Whitfield
Rhif Elusen Gofrestredig | Registered Charity Number: 1022675